



Disclosure &
Barring Service

Gweithgaredd a reoleiddir gydag oedolion yng Nghymru





Ymwadiad: Nid cyngor cyfreithiol yw hwn. Os oes arnoch angen help i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith, dylech siarad â chynghorydd cyfreithiol.



Beth yw gweithgaredd a reoleiddir?

Gweithgaredd a reoleiddir yw gwaith na ddylai unigolyn sydd wedi'i wahardd ei wneud. Fe'i diffinnir yn y Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (SVGA) a ddiwygiwyd gan y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (PoFA).

Mae plentyn yn golygu unrhyw un nad yw eto wedi cyrraedd 18 mlwydd oed. Fodd bynnag, os yw gweithgaredd yn ymwneud â'u cyflogaeth yn unig e.e. hyfforddiant ymsefydlu wrth ddechrau gweithio, dim ond os ydynt o dan 16 oed y cânt eu hystyried yn blentyn.



Os ydych chi'n cyflogi neu'n asesu rhywun i wneud gwaith sy'n weithgaredd a reoleiddir gyda phlant, gallech ofyn am **dystysgrif DBS Fanylach gyda gwiriad ar y rhestr waharddedig ar gyfer plant.**

Pan fyddwch yn gofyn am dystysgrif DBS i asesu rhywun i gynnal gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant, bydd hyn yn golygu eich bod yn ddarparwr gweithgaredd a reoleiddir (RAP) sy'n cyflwyno rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006.

Beth yw'r rhwymedigaethau hyn?

Fel darparwr gweithgaredd a reoleiddir mae gennych ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio unigolyn i'r DBS lle mae'r amodau perthnasol yn cael eu diwallu. Dyma'r amodau:

- byddwch yn tynnu caniatâd yn ôl i unigolyn gyfranogi mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant ac/neu oedolion. Neu byddwch yn symud yr unigolyn i faes arall o waith nad yw'n weithgaredd a reoleiddir. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd pan fydddech wedi cymryd y camau uchod, ond lle cafodd yr unigolyn ei ail-leoli, neu ble gwnaeth ymddiswyddo, ymdddeol, neu adael.

Ac rydych yn meddwl bod y person wedi cyflawni 1 o'r canlynol:

- ymddwyn mewn modd perthnasol mewn cysylltiad â phlant ac/neu oedolion. Mae gweithred neu ddiffyg gweithredu wedi niweidio plentyn neu oedolyn neu ei roi mewn perygl neu niwed neu;

- mae unigolyn wedi diwallu'r prawf niwed mewn cysylltiad â phlant ac/neu oedolion. E.e. ni fu unrhyw ymddygiad perthnasol ond mae risg o niwed i blentyn neu oedolyn yn dal i fodoli, neu
- mae unigolyn wedi cael rhybudd neu euogfarn ynghylch trosedd perthnasol (gwaharddiad awtomatig naill ai gyda neu heb yr hawl i wneud sylwadau)

Sut allaf wneud atgyfeiriad?

Rydym yn derbyn atgyfeiriadau a wneir gan ddefnyddio ein ffurflen atgyfeirio ar-lein neu drwy'r post (papur).

Y naill ffordd neu'r llall, gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth benodedig. Mae hon yn wybodaeth mae'n rhaid i chi ei darparu yn ôl y gyfraith, os oes dyletswydd arnoch chi i atgyfeirio neu os ydych yn un o'r unigolion/cyrff hynny mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith iddynt ddarparu gwybodaeth ar gais. Dylech fod yn ymwybodol y gallai'r ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwybodaeth benodedig fod yn gymwys os ydych wedi gwneud atgyfeiriad i'r DBS neu peidio.

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi cymaint o wybodaeth berthnasol inni ag y gallwch. Mae DBS yn dibynnu ar ansawdd y wybodaeth a ddarperir i ni. Ni ddisgwylir i chi ddarparu gwybodaeth nad oes gennych fynediad iddi. Fel rhan o'r broses i benderfynu a ddylai unigolyn gael ei roi ar restr waharddedig, gellir defnyddio unrhyw wybodaeth yn eich atgyfeiriad gennym a gellid ei datgelu i'r unigolyn a atgyfeiriwyd neu i bartion eraill.

I gael rhagor o help ag atgyfeiriadau

Gallwch ein ffonio ar 03000 200 190 neu weld y siart llif atgyfeirio yn

www.gov.uk/government/publications/dbs-referrals-referral-chart

Mae gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant yn cynnwys:

- pa weithgaredd bydd unigolyn yn ei gyflawni a pha mor aml bydd yn gwneud hynny; neu
- ble bydd y gwaith yn digwydd a pha mor aml bydd yr unigolyn yn gweithio yno; neu
- gweithio mewn swyddi penodedig yng Nghymru.

O dan rai amgylchiadau, mae'n rhaid ystyried goruchwyllo'r rôl hefyd.

I gael rhagor o fanylion ynghylch yr hyn sy'n golygu gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant gweler y dogfennau cysylltiedig a amgaeir.



Gweithgareddau penodedig gyda phla

Gweithgaredd	Amod cyfnod
Addysgu, hyfforddi neu gyfarwyddo, gofalu am neu oruchwylio plant	Mwy na 3 diwrnod mewn cyfr 30 diwrnod NEU dros nos rhw a 6yb â'r cyfle i gysylltu â phla yn wyneb
Cymedroli gwasanaeth gwe yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer plant	Mwy na 3 diwrnod mewn cyfr 30 diwrnod YN UNIG
Cyngor neu gyfarwyddyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant	Mwy na 3 diwrnod mewn cyfr 30 diwrnod NEU dros nos rhw a 6yb â'r cyfle i gysylltu â phla yn wyneb
Gyrru cerbyd i blant	Mwy na 3 diwrnod mewn cyfr 30 diwrnod YN UNIG
Gofal iechyd neu ofal personol	Mae unwaith yn ddigon
Cofrestru i fod yn ofalwr maeth neu ofalwr maeth preifat	Ddim un
Cofrestru i fod yn warchodwr plant neu'n ddarparwr gofal plant, gan gynnwys cofrestru gwirfoddol	Ddim un

ant a'r hyn mae angen i chi ei ystyried

	Goruchwyllo	Oedran
nod o wng 2yb nt wyneb	Rhaid ystyried	O dan 18 oed – ond nid os yw'r gweithgaredd mewn cysylltiad â gwaith am dâl neu ddi-dâl y plentyn AC mae'n 16/17.
nod o	Ddim yn ofynnol	O dan 18
nod o wng 2yb nt wyneb	Ddim yn ofynnol	O dan 18 oed – ond nid os yw'r gweithgaredd mewn cysylltiad â c neu ddi-dâl y plentyn AC maen nhw'n 16/17.
nod o	Ddim yn ofynnol	O dan 18
	Ddim yn ofynnol	O dan 18
	Ddim yn ofynnol	O dan 18
	Ddim yn ofynnol	Yn unol â rheoliadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

Sefydliadau penodedig gyda phlant

Mae'r adran hon yn amlinellu'r meini prawf mae angen eu diwallu ar gyfer rolau **nad ydynt** yn darparu addysgu, hyfforddiant, cyfarwyddyd, gofal, goruchwyliaeth na chynghor yn un o'r sefydliadau penodedig a restrir isod. Os nad yw rhywun yn diwallu gweithgaredd a reoleiddir oherwydd yr hyn maent yn ei wneud, gallant ei ddiwallu oherwydd ble maent yn gweithio. Bydd hyn yn bennaf, ond nid yn unig, ar gyfer swyddi ategol, e.e. glanhawyr, staff gweinyddu ac ati.

Y sefydliadau penodedig yw –

- Sefydliad addysgol sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer darparu addysg amser llawn i blant
- Uned atgyfeirio disgyblion
- Darparwr addysg feithrin
- Canolfan gadw ar gyfer plant
- Cartref plant neu gartref a ddarperir o dan Ddeddf Plant 1989
- Canolfan blant



- Safleoedd perthnasol ar gyfer gofal plant
- Ysbyty plant **yng Nghymru**

Rhaid i rolau ategol yn y sefydliadau penodedig hyn ddiwallu pob un o'r pedwar maen prawf dilynol i fod yn ymgymryd â gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant –

- byddant yn gweithio yno ar fwy na 3 diwrnod mewn cyfnod o 30 diwrnod neu dros nos rhwng 2am a 6am â'r cyfle i gysylltu â'r plant wyneb yn wyneb **ac**
- mae ganddynt gyfle, oherwydd eu swydd, i gysylltu â'r plant yn y sefydliad **ac**
- maent yn gweithio yno at ddiben y sefydliad **ac**
- Nid yw'n waith dros dro nac achlysurol **ac**
- Nid yw'n rôl gwirfoddolwr dan oruchwyliaeth

Goruchwyllo – cynnal gweithgareddau mewn sefydliadau penodedig

Os yw'r rôl yn diwallu'r diffiniad o weithgaredd a reoleiddir gyda phlant oherwydd ei bod yn cynnwys addysgu, hyfforddi neu gyfarwyddo plant, neu os yw'n darparu unrhyw fath o ofal ar gyfer plant neu'n eu goruchwyllo mewn sefydliad penodedig a diwallir yr amod cyfnod, yna rhaid i'r sefydliad **ystyried** canllawiau statudol yr Adran Addysg (DfE) ar gyfer goruchwyllo.

Os yw'r rôl yn golygu ymgymryd ag un o'r gweithgareddau penodedig mewn sefydliad penodedig, mae'n wirfoddol ac mae'r sefydliad yn penderfynu bod y rôl wedi'i oruchwyllo'n ddigonol, yna nid yw'r gwirfoddolwr yn ymgymryd â gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant ac mae'n gymwys i gael tystysgrif DBS fanylach yn unig.

Os yw'r rôl honno'n gweithio o fewn y sefydliad penodedig yn waith am dâl, yna bydd yr unigolyn **bob amser** mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant ac yn gymwys i gael tystysgrif DBS fanylach gyda gwiriad rhestr waharddedig ar gyfer plant. Gwneir hyn beth bynnag fo'r lefel o oruchwyliaeth maent yn ei gael.

Swyddi penodedig yng Nghymru

Mae'r swyddi hyn yn diwallu'r diffiniad o weithgaredd a reoleiddir gyda phlant oherwydd teitl y swydd, neu gyfrifoldebau, ac nid oes angen eu cynnal am nifer benodol o weithiau.

- Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru a Dirprwy Gomisiynydd Plant Cymru

Mae'r swyddi dilynol yn ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant dim ond os oes gan ddeiliad y swydd y cyfle, oherwydd y rôl sydd ganddo, i gael cyswllt â'r plant.

- Swyddogaethau Gweinidogion Cymru i arolygu sefydliadau neu asiantaethau cofrestredig, un o gyrff y GIG neu unrhyw un sy'n darparu gofal iechyd i un o'r gyrff
- Swyddogaethau'n ymwneud ag arolygu gwarchod plant, neu asiantaeth faethu, canolfan breswyl i deuluoedd, asiantaeth fabwysiadu gwirfoddol, asiantaeth cymorth mabwysiadu
- Swyddogaethau'n ymwneud â lles plant mewn ysgolion preswyl
- Swyddogaethau'n ymwneud ag arolygiadau o hyfforddiant athrawon, awdurdodau addysg lleol, ysgolion annibynnol cofrestredig, ysgolion preswyl a cholegau

- Swyddogaethau'n ymwneud ag adolygu neu ymchwilio i swyddogaethau awdurdodau gwasanaethau plant
- Swyddogaethau'n ymwneud ag arolygu gwasanaethau gyrfaoedd
- Swyddogaethau'n ymwneud ag arolygu addysg grefyddol
- Swyddogaethau'n ymwneud ag arolygu'r broses o gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol gan awdurdodau lleol



Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan DBS. Efallai y bydd y tudalennau dilynol yn ddefnyddiol ichi.

www.gov.uk/find-out-dbs-check

www.gov.uk/government/publications/dbs-workforce-guidance

Mae gwybodaeth ynghylch gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant hefyd ar gael gan yr Adran Addysg (DfE).

www.gov.uk/government/publications/new-disclosure-and-barring-services





Disclosure & Barring Service

Contact

General enquiries: customerservices@db.s.gsi.gov.uk

Corporate relations: communications@db.s.gsi.gov.uk

Telephone: 03000 200 190

Welsh Language: 0300 200 191

Minicom: 03000 200 192

International: +44 151 676 9390

Website: www.gov.uk/db.s